

Mae Anabledd Dysgu Cymru yn edrych am Ymddiriedolwyr Newydd

Beth yw Ymddiriedolwr?

Ymddiriedolwr ydy rhywun sy'n rhoi eu hamser nhw am ddim i helpu i reoli Elusen. Mae'n rôl gyfreithiol bwysig.

Fel Ymddiriedolwr Anabledd Dysgu Cymru fe fyddwch chi yn:

- deall ein pwrpas ni a gwneud yn siŵr ein bod ni'n gwneud popeth rydyn ni'n ddweud ein bod ni'n mynd i'w wneud
- gwneud yn siŵr ein bod ni'n gweithio o fewn y gyfraith
- gwneud yn siŵr ein bod yn dilyn ein rheolau (Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu)
- dewis Cadeirydd, Is-Gadeiryddion a Thrysorydd
- gwneud yn siŵr ein bod ni'n gwario ein harian yn gywir
- ein helpu ni i benderfynu pa waith fyddwn ni yn ei wneud yn y dyfodol
- ein helpu ni i ofalu am ein staf ni
- cymryd rhan yng nghyfarfodydd ein Pwyllgor Rheoli ni.





I fod yn ymddiriedolwr mae angen i chi:

☒ fod yn 18 oed neu drosodd



☒ cytuno â a chefnogi cenhadaeth, gwerthoedd a phwrrpas Anabledd Dysgu Cymru



☒ bod yn hapus i fod yn ymddiriedolwr tan ein CCB yn 2024




☒ gallu gwrando a siarad mewn cyfarfodydd



☒ cael y sgiliau a'r profiad sy'n ein helpu ni i reoli Anabledd Dysgu Cymru



☒ mynychu 4 cyfarfod ymddiriedolwyr y flwyddyn ar ddiwrnodau gwaith. Cynhelir cyfarfodydd ar Zoom neu wyneb yn wyneb pan allwn ni. Byddwn ni'n talu am eich teithio.



☒ peidio â bod yn waharddedig rhag bod yn ymddiriedolwr

Fe fydd bod yn ymddiriedolwr yn golygu y byddwch chi'n yn helpu Anabledd Dysgu Cymru i:

Gwneud Cymru'r wlad orau i bobl ag anabledd dysgu fyw, dysgu a gweithio ynddi.



I fod yn ymddiriedolwr, hoffem ni i chi hefyd gael rhai o'r rhain:



- eisiau gwella bywydau pobl ag anabledd dysgu, eu teuluoedd nhw a'u gofalwyr nhw



- gwybod beth mae'n rhaid i chi ei wneud i fod yn ymddiriedolwr



- gwybod am y materion sy'n effeithio ar bobl ag anabledd dysgu



- deall arian



- gallu deall a siarad Cymraeg



- deall sut mae corff yn cael ei reoli



- gwybod am gyflogi staff a gofalu amdany'n nhw.

Lleodd Gwag

Gallwch chi gynnig os cynrychiolwch chi un o'r sefydliadau canlynol yn ein categori cymuned o ddiddordeb:



- Darparwyr Cefnogaeth Deuluol - 1 sedd ar gael



- Gofalwyr Teuluol - 1 sedd ar gael.



Neu rydych chi'n:

- Unigolyn â diddordeb – 1 sedd wag



Sut i wneud cais

Llenwch y ffurflen gais i ymddiriedolwyr a'i dychwelyd aton ni erbyn **5 Tachwedd 2021**.



Yna fe fyddwn ni'n gofyn i rywun sydd yn eich adnabod chi i ysgrifennu geirada – llythyr lle maen nhw'n dweud wrthyn ni am y pethau rydych chi'n gallu eu gwneud.




Wedyn, byddwn ni'n gofyn i'n haelodau eich ethol yn ein CCB ar **24 Tachwedd 2021**.



Anabledd Dysgu Cymru

Rydyn ni:



- yn elusen Cymru gyfan



- yn gorff aelodaeth sy'n gweithio gyda'i aelodau e a'i bartneriaid e



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- yn cael arian gan Lywodraeth Cymru, Cronfa'r Loteri Fawr, Erasmus +, Esme Fairbairn



ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED



- Cyflogwn ni 20 o bobl.



Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau cysylltwch â:

Joanne Moore yn Anabledd Dysgu Cymru



Ffôn:

029 2068 1160



E-bost:

joanne.moore@ldw.org.uk